

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed Fedi 2022.

Presennol– Mari E M Mathews Cadeirydd, Anna Brown, Neil Pringle, Janet Charlton, Cllr Elizabeth Roberts, Caerwyn Roberts, and Clerc

Ymddiheuriadau - Dim ymddiheuriad

Datgan diddordeb - Datganwyd diddordeb gan Anna Brown yng nghofnod [2.2b] a ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth

Datganwyd diddordeb yng nghofnod [2.2 d] gan Mari E M Mathews, a ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y18ed Orffennaf 2022

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod y Prif Arolygwr Jeff Moses yn awyddus i gwrdd y Cyngor I drafod y posibilrwydd o benodi heddwes i wasanaethu yn y gymuned. Y clerch i anfon gwahoddiad i'r Arolygwr.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Gan nodi 'r adroddiad gan Mott Macdonald ynglŷn â chreu pont droed, cytunodd y Cyng E Roberts I gysylltu gyda Bryn Shiland [Conwy CBC] I geisio arweiniad.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts y byddai'n adrodd yn ôl yn dilyn cyfarfod gyda'r gymdeithas ar y 21ain Fedi.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Nodwyd bod y Parc Cenedlaethol wedi anfon at y perchennog ynglŷn â chyflwr y safle.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Eglurodd y Cyng E Roberts bod cyfarfod gyda Robin Millar AS a Katie Clubb [Cartrefi Conwy] wedi ei drefnu yn y Neuadd am 2.00 o'r gloch 26ain Fedi 2022.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd yn siomedig nad oedd y gwaith wedi ei wneud.

[1.6] Dyn mewn Fan

Y clerch i gysylltu'n mhellach gydag Edward Jones APCE

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Rhoddyd adroddiad gerbron gan y Cyng E Roberts ynglŷn â chyflwr y bont ac y byddai Cyngor BS Conwy yn trefnu astudiaeth dichonoldeb

[1.8] Holiadur Cymuned

Deallwyd bod yr adroddiad ar fin cael ei gwblhau.

[1.9] Clwb Peldroed Betws

Cytunodd y Cyng Neil Pringle i gwrdd gyda Mr Tony Godbert i drafod faint o uchder ychwanegol sydd ei angen i'r fense a hefyd arwyddion cwn ayb.

[2] Safle We'r Cyngor

Y clerc i drefnu cyfarfod gyda Nick Ferguson / Mari E M Mathews.

[2.1] Hen Eglwys Saint Mihangel

Eglurodd y clerc nad oes ateb wedi ei dderbyn gan y Parch Stuart Elliot ynglŷn â chyflwr y fynwent. Cytunodd y Cyng Janet Charlton i gael golwg.

Y Brif Agenda

[2.2] Materion Cynllunio

[a] Caniatâd Hysbyseb I arddangos arwyddion wyneb a chanopi ayb.

Fat Face, Uned 4 Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[b] Newid defnydd ac ymestyn annedd i fflat y perchennog a 13 o unedau llety staff a chanolfan cymunedol i staff

Acorns, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad yn amodol [a] Bod hawliau mynediad i holl eiddo cyfagos [b] Giât fynediad ar gyfer diogelwch trigolion [c] Tirlunio yn dilyn cwblhad y gwaith. [c] Adeiladu tŷ fforddiadwy newydd a gosod gwarediad dwr budr cysylltiedig.

Fferm yr Hendre, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r cais, a hefyd bod y cais yn cael gwrandawriad ym mhwyllgor APCE ar gyfer dangos cefnogaeth i'r cais.

[d] Newid defnydd o adeiladau allanol domestig i gaffi a man chwarae meddal cysylltiedig i blant

Royal Oak Farmhouse, Betws-y-Coed

Gan nodi'r pryder a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ar yr 18/9/22, penderfynwyd yn dilyn eglurhad nad oedd pryderon pellach.

[2.3] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd

Awst/Gorffennaf 2022

[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Raeadr Ewynnol wedi gostwng yn gymharol i gyfnod yr haf 2021.

[2.4] Mynwent Erw Hedd

Y clerc i gysylltu gyda Gary Williams [Cyngor BS Conwy] ynglŷn â darparu coed

[2.5] Taith Gerdded Cefnogwyr Cancr Macmillan, Mai/Mehefin 2023

Penderfynwyd caniatáu defnydd o Cae Llan ar gyfer diwedd y daith o 26 milltir. Y clerc i gysylltu gyda'r clwb peldroed ynglŷn â'i trefniadau yn ystod y tymor peldroed

Mari E M Mathews, Cadeirydd

